



Dyddiad y Crëwyd: 28/07/18
Rhif y Fersiwn: 1.01
Dyddiad y
Cyhoeddwyd: 03/04/24

Ardal Gwasanaeth: Meysydd Gwasanaeth Amrywiol
Ardal Waith: Meysydd Gwaith Amrywiol
Manylion Cyswllt: 01443 864320
diogeludata@caerffili.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd: Ymgynghoriadau / Arolygon

Disgrifiad o Hysbysiad Preifatrwydd: Bydd y rhybudd preifatrwydd hwn yn esbonio sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch wrth ymateb i amrywiol arolygon / ymgynghoriadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

Diben y gwaith prosesu

Diben yr ymgynghoriad / arolwg yw gofyn am eich barn ar faterion / gwasanaethau. Bydd yr ymgynghoriadau / arolygon wedi'u cwblhau yn cael eu casglu ynghyd a'u defnyddio i lunio adroddiad cryno. Gan ddibynnu ar gwmpas / natur yr arolwg / ymgynghoriad, defnyddir yr adroddiad cryno i werthuso ac ailfodelu gwasanaethau / blaenoriaethau ac ati

Ni ellir adnabod unigolion o'r adroddiad cryno hwn a all gael ei gyhoeddi gennym ni.

Os yw'r ymgynghoriad / arolwg yn cynnig mynediad i raffl fawr, yna bydd eich manylion cyswllt hefyd yn cael eu defnyddio at ddibenion gweinyddu'r raffl fawr. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi hunaniaeth enillwyr ar ein gwefan ond dim ond gyda'u caniatâd.

Os hoffech ymuno â'n Panel Viewpoint, bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio at ddibenion gweinyddu'r Panel Viewpoint.

Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 (GDPR), mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

1f. mae angen prosesu at ddibenion y buddiannau dilys a ddilynir gan y rheolwr neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol y pwnc data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan mai plentyn yw'r testun data.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol arbennig, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel y'i amlinellir isod.

- 8 (1) Cyflawnir yr amod hwn os yw'r brosesu -
- (a) yn gategori penodol o ddata personol, a
 - (b) yn angenrheidiol at ddibenion adnabod neu adolygu'r bodolaeth neu absenoldeb cyfle neu driniaeth cyfartal rhwng grwpiau o bobl a bennir mewn perthynas â'r categori hwnnw, gyda golwg ar alluogi hyrwyddiad neu chynhaliad cydraddoldeb o'r fath, yn ddarostyngedig i eithriadau.

Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

Hunaniaeth y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Mr Carl Evans

Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol / Swyddog Diogelu Data

E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk

Ffôn: 01443 864322

Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth fydd y maes gwasanaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n ceisio'ch barn / gweinyddu'r raffl.

Er y gellir cyhoeddi adroddiadau cryno, ni ellir adnabod unigolion o'r adroddiad cryno hwn.

Os byddwch chi'n ymuno â'n Panel Viewpoint, bydd yr Uned Gyfathrebu o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn brif ddefnyddiwr eich gwybodaeth.

Manylion unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Ni fydd eich gwybodaeth a ddarperir wrth ymateb i ymgynghoriadau / arolygon yn cael ei rannu ag eraill oni bai fod gennym ddyletswydd gyfreithiol i wneud hynny.

Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hól, os bydd y deddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Manylion y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Ni fyddwn yn cadw y barn a mynegwch mewn modd a fydd yn eich adnabod am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol.

Os yw'r ymgynghoriad / arolwg yn cynnig mynediad i raffl fawr, yna cedwir eich manylion cyswllt am 6 mis.

Os ydych yn aelod o Banel Viewpoint, bydd eich manylion cyswllt yn cael ei gadw a'i ddefnyddio nes eich bod yn rhoi gwybod i ni nad ydych am fod yn aelod mwyach.

Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

Eich hawliau o dan Ddiogelu Data

Mae Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destunau'r data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun - Mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i hygludedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais / gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio gan y maes gwasanaeth sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad / arolwg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd y safbwyntiau a fynegir yn cael eu casglu ynghyd a'u defnyddio i lunio adroddiad cryno. Gan ddibynnu ar gwmpas / natur yr arolwg / ymgynghoriad, defnyddir yr adroddiad cryno i werthuso ac ailfodelu gwasanaethau / blaenoriaethau ac ati Ni fyddwn yn cadw y barn a mynegwch mewn modd a fydd yn eich adnabod am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol.

Os yw'r ymgynghoriad / arolwg yn cynnig mynediad i raffl fawr, yna bydd eich manylion cyswllt hefyd yn cael eu defnyddio at ddibenion gweinyddu'r raffl fawr. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi hunaniaeth enillwyr ar ein gwefan ond dim ond gyda'u caniatâd. Cedwir manylion cyswllt y rhai a gofrestrwyd mewn raffl fawr am 6 mis.

Os hoffech ymuno â'n Panel Safbwynt, bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio at ddibenion gweinyddu'r Panel Safbwynt a bydd yn cael eu cadw a'u defnyddio nes eich bod yn rhoi gwybod i ni nad ydych am fod yn aelod mwyach.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

[{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}](#)